OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1063 (Cy.154)

# CYDRADDOLDEB, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Pennu Awdurdodau Cymreig Perthnasol) 2011

*Gwnaed - - - - 3 Ebrill 2011*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1*

Yn unol ag adran 209(2), (3) a (6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**1**), mae drafft o'r offeryn hwn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

Yn unol ag adran 152(2) o'r Ddeddf honno mae Gweinidogion Cymru wedi cael cydsyniad un o Weinidogion y Goron ac wedi ymgynghori â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 151(2) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Pennu Awdurdodau Cymreig Perthnasol) 2011.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff ei wneud.

### Diwygio Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010

**2.** Diwygir Rhan 2 (Awdurdodau Cyhoeddus: Awdurdodau Cymreig Perthnasol) o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel a ganlyn:

(a) ar ôl y cofnod olaf o dan yr is-bennawd "*National Health Service*" mewnosoder—

> "The Board of Community Health Councils in Wales or Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru.";

(b) yn lle'r cofnod "A county council, county borough council or community council in Wales." rhodder "A county council or county borough council in Wales.";

(c) hepgorer y cofnodion a ganlyn—

> "A Special Health Authority established under section 22 of that Act other than NHS Blood and Transplant and the NHS Business Services Authority.";

(**1**) 2010 p.15.

"Charter trustees constituted under section 246 of the Local Government Act 1972 for an area in Wales.";

"An internal drainage board which is continued in being by virtue of section 1 of the Land Drainage Act 1991 for an area in Wales.";

"A port health authority constituted by an order under section 2 of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 for an area in Wales.";

"A joint authority established under Part 4 of the Local Government Act 1985 for an area in Wales.";

"A joint committee constituted in accordance with section 102(1)(b) of the Local Government Act 1972 for an area in Wales.";

"A joint board which is continued in being by virtue of section 263(1) of that Act for an area in Wales.";

(ch) ar ôl y cofnod olaf o dan yr is-bennawd "*Other educational bodies*" mewnosoder—

"The Higher Education Funding Council for Wales or Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

The General Teaching Council for Wales or Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales or Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

*Other public authorities*

The Auditor General for Wales or Archwilydd Cyffredinol Cymru.

The Public Services Ombudsman for Wales or Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

The Care Council for Wales or Cyngor Gofal Cymru.

The Arts Council for Wales or Cyngor Celfyddydau Cymru.

The National Museum of Wales or Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

The National Library of Wales or Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

The Sports Council for Wales or Cyngor Chwaraeon Cymru.

The Welsh Language Board or Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

The Countryside Council for Wales or Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

The Commissioner for Older People in Wales or Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

The Children's Commissioner for Wales or Comisiynydd Plant Cymru.".

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

3 Ebrill 2011

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r rhestr o awdurdodau a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf"). Mae'r awdurdodau hyn yn ddarostyngedig i ddyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus ("dyletswydd gyffredinol") a bennir yn adran 149 o'r Ddeddf, yn rhinwedd adran 150 o'r Ddeddf, sef bod yr awdurdodau'n rhoi sylw dyladwy, wrth arfer eu swyddogaethau, i'r angen—

(a) am ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf hon neu oddi tani;

(b) am roi hwb ymlaen i gyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;

(c) am feithrin perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r awdurdodau a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 19, fel y'i diwygir gan y Gorchymyn hwn, hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau cydraddoldeb penodol a osodir gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 o dan y pŵer a roddwyd iddynt gan adran 153(2) o'r Ddeddf.

Mae'r Gorchymyn hwn yn hepgor cofnodion o'r rhestr o awdurdodau a bennir. Fodd bynnag, bydd yr awdurdodau a hepgorwyd ac sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus yn parhau'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd gyffredinol yn adran 149(1) o'r Ddeddf wrth arfer y swyddogaethau hynny, yn rhinwedd adran 149(2) o'r Ddeddf. Mae erthyglau 2(a), (b) ac (ch) yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 19 er mwyn cynnwys yr awdurdodau a restrir yn y paragraffau hynny.